



Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

INS57PW

Gwybodaeth am drwyddedau gyrru



I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/browse/driving

Gwiriwch eich Trwydded Yrru'n ofalus
a chadwch y daflen hon yn ddiogel.

Sicrhewch eich bod bob amser yn defnyddio gwefan swyddogol **GOV.UK**

Cynnwys

Eich trwydded yrru	3
Sut i wirio eich rhif gyrrwr	3
Beth i'w wneud os byddwch yn colli eich trwydded yrru	4
Newid eich manylion personol	4
Beth i'w wneud pan fydd deiliad trwydded yn marw	4
Pan na fydd angen trwydded bellach	4
Eich iechyd	5
Syndrom Apnoea Cwsg Rhwystrol (OSAS)	5
Golwg	5
Gwybodaeth gyffredinol	6
Eich trwydded yrru	6
Categoriâu cerbydau	7
Codau gwybodaeth	12
Codau gwledydd nad ydynt ym Mhrydain Fawr	13
Gyrru mewn gwledydd eraill	14
Gyrwyr sy'n dysgu a deiliaid trwydded dros dro	14
Amodau a chyfyngiadau trwydded dros dro (ceir)	14
Hawl ar gyfer y rhai sy'n 16 oed	15
Gwneud cais am drwydded lawn ar ôl pasio'ch prawf	15
Hyfforddiant Sylfaenol Gorfodol (CBT)	15
Mathau o feiciau modur ar gyfer profion..	16
Hyfforddiant i reidio beic modur mawr (mynediad uniongyrchol)	17
Bysiau mini, loriau a bysiau	17
Gyrru bws mini	17
Gyrru lori maint canolig	17
Gyrru lori neu fws	17
Goruchwyllo gyrwyr sy'n dysgu gyrru lori a bws	18
Tynnu ôl-gerbydau	18
Cartrefi modur	18
Cerbydau nad oes angen hawl lori neu fws arnynt	18
Pwyntiau cosb a gwaharddiadau	19
Codau pwyntiau cosb	19
Helpu, annog, cwnsela neu gaffael	23
Achosi neu ganiatáu i rywun gyflawni trosedd	23
Annog neu berswadio rhywun i gyflawni trosedd	23
Troseddau nad ydynt yn ardystiadwy	23
Deddf Traffig Ffyrdd (Gyrwyr Newydd) 1995	24
Mathau o gyffuriau	25
Cydnabyddiaeth gilyddol o yrru – Gwaharddiadau	25
Gwaharddiad cyfnod byr (SPD)	26
Gwybodaeth bellach	26
Diogelu Data	26
Lle i gael mwy o gyngor am drwyddedau gyrru	26
Safonau gwasanaeth y DVLA	27
Rhoi organau	27
Sut i ddod yn rhoddwr gwaed	28

Eich trwydded yrru

Diogelwch eich hun yn erbyn dwyn hunaniaeth.

Peidiwch â phostio delweddau o'ch trwydded yrru ar-lein.

Gwiriwch eich trwydded yrru'n ofalus. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes gwall yn eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni, llofnod neu gategoriâu cerbydau.

Sut i wirio eich rhif gyrrwr

A	B	C	D	E
MORGA	657054	SM	9IJ	**

- A:** Dyma bum llythyren gyntaf eich cyfenw. Os oes llai na phum llythyren gan eich cyfenw, bydd y bylchau sy'n weddill yn cael eu llenwi gan ddefnyddio rhif 9 (er enghraifft, MAN99).
- B:**
- Y rhif cyntaf ac olaf yw'r flwyddyn geni
 - Yr ail a'r trydydd rhif yw'r mis geni. (Os ydych yn fenyw, ychwanegir '5' at yr ail rif a defnyddir y cyfanswm fel yr ail ddigid. Felly os ydych yn fenyw a anwyd ym mis Hydref yr ail a'r trydydd rhif fyddai 60.)
 - Mae'r pedwerydd a'r pumed digid yn dangos diwrnod eich geni
- C:** Dwy flaenlythyren gyntaf eich enwau cyntaf. Os oes gennych un flaenlythyren yn unig yna bydd yr ail nod yn '9'.
- D:** Mae'r cyfrifiadur yn gwirio digidau a gynhyrchwyd ar hap fel mesur diogelwch.
- E:** Dyma rif cyhoeddi'r drwydded a fydd yn cynyddu un gyda phob trwydded a gyhoeddir. Nid yw'n rhan o'r rhif gyrrwr.

Os bydd unrhyw beth o'i le gyda'r drwydded, dychwelwch hi atom yn DVLA, Abertawe, SA99 1BN. Cynhwyswch lythyr a fydd yn esbonio beth sy'n bod.

Rhowch eich enw llawn a dyddiad geni neu rif gyrrwr pryd bynnag y byddwch yn cysylltu â ni am eich trwydded. Mae hyn yn ein helpu i ddod o hyd i'ch manylion.

Mae DVLA yn defnyddio pecyn cod post y Post Brenhinol i ddiweddarau manylion cyfeiriad. Os hoffech gynnwys enw eich tŷ yn eich cyfeiriad, bydd angen ichi gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cyngor am sut i wneud hynny.

Byddwn yn anfon eich trwydded a'ch dogfennau adnabod ar wahân. Os na fyddwch yn derbyn eich dogfennau adnabod yn ôl o fewn dwy wythnos o dderbyn eich trwydded yrru, ffoniwch ni ar 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

Noder: Mae'r 'Cais am drwydded yrru' (D1W) ar gael:

- gan ganghennau'r Swyddfa'r Post® sy'n cynnig gwasanaethau gyrwyr a cherbydau
- ar-lein yn www.gov.uk/dvlaforms
- drwy ffonio 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg

Os oes gennych neu eich bod yn gwneud cais am drwydded lawn lori, bws neu fws mini mae'n rhaid ichi lenwi 'Cais am drwydded lori, bws neu fws mini' (D2W) sydd ar gael:

- gan ganghennau'r Swyddfa'r Post sy'n cynnig gwasanaethau gyrwyr a cherbydau
- ar-lein yn www.gov.uk/dvlaforms
- drwy ffonio 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg

Beth i'w wneud os byddwch yn colli eich trwydded yrru

Os nad yw'r manylion ar eich trwydded wedi newid, gallwch wneud cais am drwydded newydd ar-lein yn

www.gov.uk/gwneud-cais-arlein-i-adnewyddu-trwydded-yrru

neu drwy ffonio 0300 790 6801 rhwng 8am a 7pm ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn. Rydym yn derbyn taliadau drwy Visa, MasterCard a Delta.

Noder: sicrhewch eich bod bob amser yn defnyddio gwefan swyddogol GOV.UK.

Gallwch wneud cais am drwydded newydd gan ddefnyddio ffurflenni D1W neu D2W, gweler y nodyn o dan yr adran 'Eich trwydded yrru'.

Os yw eich trwydded yrru wedi'i cholli neu'i dwyn dylech hefyd ddweud wrth yr heddlu.

Newid eich manylion personol

Mae'n rhaid ichi ddweud wrthym yn syth am unrhyw newid i'ch manylion personol.

I newid eich cyfeiriad gallwch wneud cais ar-lein yn

www.gov.uk/newid-cyfeiriad-trwydded-yrru (sicrhewch eich bod bob amser yn defnyddio gwefan swyddogol GOV.

UK) neu cwblhewch yr adran a ddarperir ar y llythyr a dderbynioc gyda'ch trwydded yrru. Mae'n rhaid i'r cyfeiriad fod yn un ym Mhrydain Fawr lle gallwn gysylltu â chi ar unrhyw adeg (nid ydym yn derbyn cyfeiriadau blwch PO).

Anfonwch eich trwydded yrru atom yn y DVLA, Abertawe, SA99 1BN.

Os yw'ch enw wedi newid bydd angen ichi lenwi ffurflenni D1W neu D2W, gweler y nodyn o dan yr adran 'Eich trwydded yrru'. Bydd angen ichi hefyd anfon prawf o'ch enw newydd.

Gallech dderbyn dirwy o hyd at £1,000 os na fyddwch yn dweud wrthym am y newidiadau hyn.

Noder os byddwch yn diweddarau manylion ar eich trwydded yrru, dylech hefyd sicrhau bod y wybodaeth ar eich dogfen cofrestru cerbyd yn gywir.

Beth i'w wneud pan fydd deiliad trwydded yn marw

Os mai chi sy'n gyfrifol am ddelio ag ystad yr ymadawedig, anfonwch y drwydded atom yn y DVLA, Abertawe, SA99 1AB.

I atal unrhyw ohebiaeth ddiangen a allai achosi gofid, anfonwch lythyr eglurhaol sy'n cynnwys enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni neu rif gyrrwr yr ymadawedig a'r dyddiad y buont farw. **Nid oes angen ichi anfon y dystysgrif marwolaeth.** Os nad yw'r drwydded ar gael, bydd llythyr sy'n rhoi rhif y gyrrwr neu'r enw llawn a'r dyddiad geni'n ddigonol.

Pan na fydd angen trwydded bellach

Os na fyddwch yn dymuno gyrru bellach dylech ddychwelyd eich trwydded atom yn DVLA, Abertawe, SA99 1AB. Cynhwyswch lythyr sy'n esbonio nad ydych yn dymuno cael trwydded bellach.

Eich iechyd

Mae'n rhaid ichi roi gwybod inni os ydych erioed wedi dioddef, neu'n dioddef ar hyn o bryd, unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar eich gallu i yrru'n ddiogel. Os bydd angen ichi ddweud wrthym bod cyflwr meddygol gennych bydd angen ichi lenwi holiadur y gallwch ei gael o www.gov.uk/health-conditions-and-driving neu gallwch ofyn am un drwy ffonio 0300 790 6806 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyflyrau iechyd perthnasol ar ein gwefan yn www.gov.uk/health-conditions-and-driving

Syndrom Apnoea Cwsg Rhwystrol (OSAS)

Mae Syndrom Apnoea Cwsg Rhwystrol (OSAS) yn gyflwr nad yw'n derbyn diagnosis yn aml. Os na fydd yn cael ei asesu a'i drin yn llawn, gall achosi syrthni a symptomau eraill a all fod yn ffactor risg difrifol mewn damweiniau traffig ffyrdd. I gael manylion pellach am sut i adnabod symptomau ewch i

www.gov.uk/obstructive-sleep-apnoea-and-driving

Golwg

Pwysig – Ydych chi wedi cael prawf golwg yn ddiweddar? Os nad ydych, bydd profion golwg rheolaidd yn tawelu eich meddwl eich bod yn parhau i fodloni'r safonau cyfreithiol.

Mae'r prawf golwg safonol yn golygu bod yn rhaid ichi allu darllen plât rhif car o 20 metr.

Ni ddylech fod wedi cael eich hysbysu gan feddyg neu optegydd bod eich golwg yn waeth ar hyn o bryd na 6/12 (degol 0.5) ar raddfa Snellen. Os bydd unrhyw amheuaeth gennych dylech drafod gyda'ch optegydd neu feddyg. Os bydd angen, gallwch wisgo sbectol neu lensys cywirol i fodloni'r ddwy safon hon.

Ceir safonau golwg uwch ar gyfer y rhai sy'n gyrru cerbydau canolog neu fawr, bysiau mini neu fysiau.

Nid yw bioptegau (telesgop) yn dderbyniol i'w defnyddio tra'n gyrru ym Mhrydain Fawr ac nid yw'n dderbyniol defnyddio dyfais fioptig i fodloni'r safon craffter gweledol. Ni ellir defnyddio dyfais fioptig i basio yn y prawf plât rhif.

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar ein gwefan

www.gov.uk/rheolau-golwg-ar-gyfer-gyrru

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am safonau ar gyfer golwg, neu unrhyw gyflwr meddygol arall, gallwch gysylltu â ni:

- drwy ysgrifennu i **DVLA, Grŵp Meddygol Gyrrwyr, Abertawe, SA99 1TU**
- drwy ffonio 0300 790 6806 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg rhwng 8am a 7pm ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch eich enw llawn a chyfeiriad, a'ch dyddiad geni neu rif gyrrwr. Hefyd rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am eich cyflwr meddygol

Gwybodaeth gyffredinol


Eich trwydded yrru

Bydd eich trwydded yrru'n dangos eich ffotograff, llofnod a chategoriâu'r cerbyd mae gennych hawl i'w yrru.

Ni ddylech orchuddio'ch trwydded yrru gydag unrhyw sticeri.

Enghraifft o flaen trwydded yrru

Mae llythren L ar y drwydded dros dro'n cadarnhau bod y deiliad yn yrrwr sy'n dysgu.




Enghraifft o gefn trwydded yrru

Pob categori Ewropeaidd a arddangosir yn y tabl

Categori dyddiad 'dilys o'

Categori dyddiad 'dilys i'




Noder: Ni fydd hawl gennych i yrru unrhyw gategori o gerbyd sy'n dangos llinellau yn lle dyddiadau.

Pob categori Ewropeaidd a arddangosir yn y tabl

Categori dyddiad 'dilys o'

Categori dyddiad 'dilys i'



Noder: ni fydd hawl gennych i yrru unrhyw gategori o gerbyd sy'n dangos llinellau yn lle dyddiadau. Fodd bynnag, os byddwch wedi pasio prawf mewn cerbyd mwy mae'n bosibl bydd yr hawl gennych i barhau i yrru neu reidio cerbydau llai o'r math hwnnw sydd â llinellau'n cael eu dangos yn lle dyddiadau, er enghraifft byddai gan ddeiliaid categori A llawn yr hawl i yrru cerbyd categori A2. Gallwch wirio categorïau mae gennych yr hawl dros dro i'w gyrru yn: www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru

Categoriâu cerbydau




I gael mwy o wybodaeth am gategoriâu cerbydau ewch i: www.gov.uk/driving-licence-categories






Uchafswm pwysau








Mae'r holl bwysau a ddyfynnir yn y tabl ar dudalennau 8, 9 a 10 yn berthnasol i '**Uchafswm Màs Awdurdodedig' (MAM)**. Dyma gyfanswm pwysau'r cerbyd pan fydd wedi'i lwytho. Gellir ei ddisgrifio hefyd fel 'pwysau gros y cerbyd'.



Dangosir hyn fel arfer ar blât a osodir ar y cerbyd.

Disgrifiadau o gategoriâu cerbydau ar neu wedi 19 Ionawr 2013

Categori	Disgrifiad	Isafswm oedran	Nodiadau
AM	<p>Moped</p>  <p>Moped</p> <ul style="list-style-type: none"> Cerbydau dwy olwyn neu gerbydau tair olwyn ag uchafswm terfyn cyflymder o dros 25km/awr a dim mwy na 45km/awr <p>Beic cwad ysgafn</p> <ul style="list-style-type: none"> Gyda màs mewn trefn olynol o ddim mwy na 425kg, heb gynnwys màs y batris yn achos cerbydau trydan, y mae eu uchafswm terfyn cyflymder dros 25km/awr a dim mwy na 45km/awr 	16	
A1	<p>Beiciau modur</p>  <ul style="list-style-type: none"> Beic modur â chapasiti silindr dim mwy nag 125cc, o bŵer dim mwy na 11kW ac â chymhareb pŵer i bwysau dim mwy na 0.1kW y kg Beic modur tair olwyn â phŵer dim mwy na 15kW 	17	
A2	 <ul style="list-style-type: none"> Beic modur â phŵer dim mwy na 35kW, â chymhareb pŵer i bwysau dim mwy na 0.2kW y kg ac nad yw'n deillio o gerbyd mwy na dwbl ei bŵer 	19	Gweler nodyn 10

Categori	Disgrifiad	Isafswm oedran	Nodiadau
A	 <ul style="list-style-type: none"> • Beic modur â phŵer yn fwy na 35kW neu â chymhareb pŵer i bwysau yn fwy na 0.2kW y kg • Beic modur â phŵer heb fod yn fwy na 35kW â chymhareb pŵer i bwysau heb fod yn fwy na 0.2kW y kg ac yn deillio o gerbyd o fwy na dwbl ei bŵer • Beic modur tair olwyn â phŵer yn fwy na 15kW 	24	Gweler nodiadau 1, 10 a 11
B1	Cerbydau ysgafn pedair olwyn  <ul style="list-style-type: none"> • Cerbydau modur â phedair olwyn â phwysau heb lwyth hyd at 400kg neu 550kg ar gyfer cerbydau a fwriedir ar gyfer cludo nwyddau 	17	
B	Ceir  <ul style="list-style-type: none"> • Cerbydau modur sydd â MAM heb fod yn fwy na 3,500kg, wedi'u llunio a'u hadeiladu i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr ag ôl-gerbyd hyd at 750kg • Fel categori B ond ag ôl-gerbyd sy'n pwysu mwy na 750kg. Ni all cyfanswm pwysau'r cerbyd a'r ôl-gerbyd bwysu mwy na 3,500kg 	17	Gweler nodiadau 2 ac 11
C1	Cerbydau maint canolig  <ul style="list-style-type: none"> • Cerbydau rhwng 3,500kg a 7,500kg, a luniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr ag ôl-gerbyd hyd at 750kg 	18	Gweler nodiadau 5 a 10
C	Cerbydau nwyddau mawr  <ul style="list-style-type: none"> • Cerbydau dros 3,500kg ag ôl-gerbyd hyd at 750kg, a luniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr 	21	Gweler nodiadau 3 a 10

Categori	Disgrifiad	Isafswm oedran	Nodiadau
D1	Bysiau mini  <ul style="list-style-type: none"> Cerbydau gyda dim mwy nag 16 o seddau i deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr a gydag uchafswm hyd dim mwy nag wyth metr ag ôl-gerbyd hyd at 750kg 	21	Gweler nodiadau 4 a 5
D	Bysiau  <ul style="list-style-type: none"> Unrhyw fws a luniwyd ac a adeiladwyd i gludo mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr, ag ôl-gerbyd hyd at 750kg 	24	Gweler nodyn 4
BE	Ceir ag ôl-gerbydau  <ul style="list-style-type: none"> Cyfuniadau o gerbydau sy'n cynnwys cerbyd yng nghategori B ac ôl-gerbyd, lle nad yw'r cyfuniad yn dod o fewn categori B, ac nad yw MAM yr ôl-gerbyd neu'r hanner ôl-gerbyd yn fwy na 3,500kg 	17	Gweler nodyn 5
C1E	Cerbydau ac ôl-gerbydau maint canolig  <ul style="list-style-type: none"> Cerbydau rhwng 3,500kg a 7,500kg ag ôl-gerbyd dros 750kg, a luniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr - pwysau cyfunedig dim mwy na 12,000kg 	18	Gweler nodiadau 3, 5 a 10
CE	Cerbydau nwyddau mawr ag ôl-gerbydau  <ul style="list-style-type: none"> Cerbydau dros 3,500kg a luniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr ag ôl-gerbyd dros 750kg 	21	Gweler nodiadau 3 a 10
D1E	Bysiau mini ag ôl-gerbydau  <ul style="list-style-type: none"> Cerbydau gyda dim mwy nag 16 o seddau i deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr ac ag uchafswm hyd heb fod yn fwy nag wyth metr ag ôl-gerbyd dros 750kg, a bod MAM y cyfuniad a ffurfiwyd dim mwy na 12,000kg 	21	Gweler nodiadau 4 a 5
DE	Bysiau ag ôl-gerbydau  <ul style="list-style-type: none"> Unrhyw fws a luniwyd ac a adeiladwyd i gludo mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr, ag ôl-gerbyd hyd at 750kg 	24	Gweler nodyn 4

Categori	Disgrifiad	Isafswm oedran	Nodiadau
p	Moped  <ul style="list-style-type: none"> Cerbyd modur gyda llai na phedair olwyn gydag isafswm terfyn cyflymder yn fwy na 45km/awr ond dim mwy na 50km/awr ac y sydd, os yw'n cael ei yrru gan fodur tanio mewnol, â chapasiti silindr dim mwy na 50cc 	16	Gweler nodyn 6
q	Moped  <ul style="list-style-type: none"> Cerbyd modur gyda llai na phedair olwyn sydd, os yw'n cael ei yrru gan fodur tanio mewnol, â chapasiti silindr dim mwy na 50cc ac os nad oes ganddo bedalau sy'n galluogi'r peiriant i gael ei danio, sydd ag uchafswm terfyn cyflymder dim mwy na 25km/awr 	16	Gweler nodyn 6
f	Tractorau amaethyddol	17	Gweler nodyn 7
g	Rholwyr ffordd	21	Gweler nodiadau 8 a 10
h	Cerbydau â thrac	21	Gweler nodiadau 9 a 10
k	Peiriannau lladd gwair i'w reidio a cherbydau a reolir gan gerddwyr ac eithrio peiriannau lladd gwair a reolir gan gerddwyr	16	

Nodyn 1

24 oed neu 2 flynedd o ddyddiad pasio prawf A2 Safonol. Cod cyfyngiad beic tair olwyn 79 (tri)/79(03).

Nodyn 2

16 oed os ydych yn cael elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu'r Taliad Anabledd Oedolyn (ADP) ar y raddfa uwch, elfen symudedd y Taliad Anabledd Plentyn (CDP) ar y raddfa uwch neu wedi gwneud cais am PIP ar ôl derbyn elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar y raddfa uwch yn flaenorol. Os bydd eich amgylchiadau'n newid tra rydych yn 16 oed ac rydych yn colli'ch budd-dal cymwys neu y caiff ei asesu eto a'i ddyfarnu ar raddfa is, mae gofyn ichi roi gwybod i DVLA, gan efallai y bydd hyn yn effeithio ar eich hawl i yrru.

Nodyn 3

Gallwch yrru'n 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog. Gallwch yrru'n 18 os bydd un o'r canlynol yn gymwys:

- pasioch eich prawf gyrru a chymhwyster cychwynnol Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr (CPC i Yrwyr)
- rydych yn dysgu gyrru neu'n sefyll prawf gyrru ar gyfer y categori hwn neu gymhwyster cychwynnol CPC i Yrwyr
- rydych yn dilyn cwrs hyfforddi galwedigaethol cenedlaethol i ennill cymhwyster cychwynnol CPC i Yrwyr

- derbynioch eich trwydded yrru cyn Medi 10 2009, mae'n rhaid ichi ddilyn hyfforddiant cyfnodol y CPC i Yrwy o fewn 5 mlynedd o'r dyddiad hwn

Nodyn 4

Gallwch yrru'n 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.

Gallwch yrru'r cerbydau hyn yn 18 oed os bydd un o'r canlynol yn gymwys:

- (i) Os byddwch yn dysgu naill ai i:
 - sefyll eich prawf gyrru Cerbyd Cludo Teithwyr (PCV)
 - ennill eich Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwy (CPC)
- (ii) Os byddwch wedi pasio prawf gyrru PCV a chymhwyster cychwynnol CPC i Yrwy, gallwch yrru os:
 - byddwch yn cludo teithwyr ar wasanaeth rheolaidd lle nad yw'r daith yn fwy na 31 milltir
 - nad ydych yn ymgymryd â chludo teithwyr
 - byddwch yn gyrru cerbyd o ddsbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
 - nad ydych yn gyrru bws neu fws mini ar y cyfandir
- (iii) Ers 10 Medi 2008, gyrrwyr sy'n pasio prawf PCV ac yn gyrru bws o dan drwydded gweithredwr bws, neu drwydded bws mini, neu drwydded bws cymunedol, gallwch yrru os:
 - byddwch yn cludo teithwyr ar wasanaeth rheolaidd lle nad yw'r daith yn fwy na 31 milltir
 - nad ydych yn ymgymryd â chludo teithwyr
 - byddwch yn gyrru cerbyd o ddsbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
 - nad ydych yn gyrru bws neu fws mini ar y cyfandir

Gallwch yrru'n 20 oed ar ôl pasio prawf gyrru PCV a chymhwyster cychwynnol CPC i Yrwy.

I gael cyngor pellach gallwch gysylltu â'r Asiantaeth Safonau Gyrrwyr a Cherbydau drwy ffonio 0300 200 1122.

21 oed ar gyfer categorïau D a DE os:

- defnyddir y cerbyd gan y gwasanaeth tân neu ar gyfer cadw trefn gyhoeddus
- yn cael profion ffordd ar gyfer dibenion trwsio neu gynnal a chadw
- oedd hawl gennych i yrru'r cerbyd cyn 19 Ionawr 2013

Nodyn 5

Os pasioch eich prawf ar gyfer categori B mae gennych yr hawl i gategori BE yn awtomatig. Os pasioch eich prawf ar gyfer categori B cyn 1 Ionawr 1997 bydd eich trwydded yn dangos hawl yn barod i C1, C1E (8.25 tonnelli), D1 (nid ar gyfer llogi neu wobwr) a D1E (nid ar gyfer llogi neu wobwr).

Nodyn 6

Categori cenedlaethol yn unig.

Nodyn 7

Yn 16 gallwch yrru tractorau sy'n llai na 2.45 o led. Mae'n rhaid iddo dynnu ôl-gerbydau'n unig yn llai na 2.45 o led gyda dwy olwyn, neu bedair olwyn sydd wedi'u cyplysu'n agos.

Nodyn 8

Yn 17 gallwch yrru rholwyr ffordd bach â rholwyr metel neu galed. Mae'n rhaid iddynt beidio â chael eu pweru gan ager, bwysu mwy na 11.69 tonnau neu wedi'i gwneud ar gyfer cludo llwythi.

Nodyn 9

Gallwch yrru'n 17, os nad yw MAM y cerbyd â thrac yn fwy na 3,500kg.

Nodyn 10

Gallwch reidio neu yrru'n 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.

Nodyn 11

Ceir eithriad ar gyfer deiliad categori B, i yrru beiciau modur tair olwyn mawr yng nghategori A os byddant dros 21 oed.

MAM – Uchafswm Mâs Awdurdodedig

Codau gwybodaeth

Mae disgrifiadau'r codau gwybodaeth ar eich trwydded yrru wedi'u rhestru isod. Mae'r rhain yn dweud wrthy'ch am unrhyw gyfyngiadau ar eich hawl gyrru.

- 01** cywiro golwg
- 02** cymorth clyw/cyfathrebu
- 10** trawsyriant wedi'i addasu
- 15** clytsh wedi'i addasu
- 20** systemau brecio wedi'u haddasu
- 25** systemau cyflymydd wedi'u haddasu
- 30** systemau brecio a chyflymydd wedi'i cyfuno (ar gyfer trwyddedau a gyhoeddwyd cyn 28 Tachwedd 2016)
- 31** addasiadau pedal a diogelwch pedalau
- 32** systemau gwasanaeth brêc a chyflymydd wedi'u cyfuno
- 33** systemau gwasanaeth brêc, cyflymydd a llywio wedi'u cyfuno
- 35** gosodiadau rheoli wedi'i addasu
- 40** llywio wedi'i addasu
- 42** drych(au) ôl-edrych wedi'u haddasu
- 43** seddau gyrru wedi'u haddasu
- 44** addasiadau i feiciau modur
 - (1) brêc a weithredir yn unigol
 - (2) brêc olwyn flaen a gyfaddaswyd
 - (3) brêc olwyn ôl a gyfaddaswyd
 - (4) cyflymydd a gyfaddaswyd
 - (5) trawsyriant llaw a chlytsh llaw (a gymhwyswyd)
 - (6) drych(au) ôl-edrych (a gymhwyswyd)
 - (7) gorchmynion (a gymhwyswyd) (arwyddion cyfeiriad, golau brêc, ac ati)
 - (8) uchder sedd sy'n caniatáu i'r gyrrwr, ar ei eistedd, i gael dwy droed ar yr arwynebedd ar yr un pryd a chydbwysu'r beic modur yn ystod stopio a sefyll
 - (11) troedfainc wedi'i chyfaddasu
 - (12) carn llaw wedi'i gyfaddasu

- 45** beic modur yn unig gyda char ochr
- 46** beiciau tair olwyn yn unig
- 70** cyfnewid trwydded
- 71** copi dyblyg o drwydded
- 78** cyfyngedig i gerbydau gyda thrawsyrant awtomatig
- 79** cyfyngedig i gerbydau i gydymffurfio â'r disgrifiadau a ddatgenir mewn cromfachau
 - (02) cyfyngedig i gerbydau gategori AM o'r math beic tair olwyn neu bedair olwyn ysgafn
 - (03) cyfyngedig i feiciau tair olwyn Argraffir y cyfyngiadau hyn pryd bynnag y bo gyrrwr yn cadw C1/D1 a awgrymir (NFHR) Nid ar gyfer llogi neu wobrwyo (<8250) dim mwy na 8,250 kg
- 97** Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 561/2006 ar dacograff mewn cludiant ar y ffordd
- 101** ddim ar gyfer llogi neu wobrwyo
- 102** ôl-gerbydau bar tynnu'n unig
- 105** dim mwy na 5.5m o hyd
- 106** cyfyngedig i gerbydau â thrawsyrant awtomatig
- 107** dim mwy na 8,250kg
- 108** yn amodol ar ofynion isafswm oedran
- 110** cyfyngedig i gerbydau pobl anabl
- 111** cyfyngedig i 16 o seddau i deithwyr
- 113** cyfyngedig i 16 o seddau i deithwyr ar wahân i gerbydau awtomatig
- 114** gydag unrhyw rheolyddion arbennig sydd eu hangen ar gyfer gyrru'n ddiogel
- 115** rhoddwr organau
- 118** mae'r dyddiad cychwyn ar gyfer yr hawl cynharaf
- 119** nid yw'r terfyn pwysau'n gymwys
- 121** cyfyngedig i amodau a bennir yn hysbysiad yr Ysgrifennydd Gwladol
- 122** yn ddilys wedi'i gwblhau'n llwyddiannus: hyfforddiant sylfaenol gorfodol (CBT)
- 123** cyfyngedig i ddim mwy na 5.5m o hyd ac eithrio ceir awtomatig
- 124** cyfyngedig i ôl-gerbydau â bar tynnu'n unig ac eithrio ceir awtomatig
- 125** beic tair olwyn

Codau gwledydd nad ydynt ym Mhrydain Fawr

Bydd y codau perthnasol yn ymddangos yn adran 'Codau gwybodaeth' y drwydded yrru os byddwch wedi cyfnewid eich trwydded o unrhyw un o'r gwledydd hyn am drwydded PF.

Andorra.....	AND	Japan	J
Awstralia.....	AUS	Jersey	GBJ
Awstria.....	A	Latfia	LV
Barbados.....	BDS	Liechtenstein.....	FL
Gwlad Belg.....	B	Lithwania	LT
Ynysoedd Virgin Prydain	VGB	Lwcsembwrg.....	L
Bwlgaria.....	BG	Malta	M
Canada	CDN	Monaco.....	MC
Ynysoedd Cayman.....	KY	Yr Iseldiroedd.....	NL
Croatia.....	HR	Seland Newydd.....	NZ
Cyprus	CY	Norwy.....	N
Y Weriniaeth Tsiec.....	CZ	Gogledd Macedonia	MK
Denmarc.....	DK	Gwlad Pwyl.....	PL
Estonia.....	EST	Portiwgal	P
Ynysoedd Falkland	FK	Gweriniaeth Corea.....	ROK
Ynysoedd Ffaroe.....	FO	Romania	RO
Y Ffindir.....	FIN	Singapôr	SGP
Ffrainc.....	F	Slofacia	SK
Yr Almaen.....	D	Slofenia.....	SLO
Gibraltar	GBZ	De Affrica	ZA
Gwlad Groeg.....	GR	Sbaen.....	E
Guernsey.....	GBG	Sweden.....	S
Hong Kong.....	HK	Y Swistir	CH
Hwngari	H	Taiwan.....	TW
Gwlad yr Iâ.....	IS	Ukrain	UA
Iwerddon	IRL	Emiraethau Arabaidd Unedig..	UE
Ynys Manaw	GBM	Simbabwe.....	ZW
Yr Eidal.....	I		

Gyrru mewn gwledydd eraill

Ymweld â gwlad arall

Bydd angen eich trwydded yrru'r DU arnoch ac efallai bydd angen Trwydded Yrru Ryngwladol (IDP) arnoch. Gallwch gael IDP o siopau PayPoint sy'n cymryd rhan ledled y DU. Bydd angen ffotograff math pasbort arnoch, eich trwydded yrru wreiddiol (bydd angen pasbort arnoch hefyd os oes gennych drwydded yrru bapur) a ffi briodol am bob IDP sydd eu hangen. Gellir dod o hyd i restr lawn o wledydd a'r gofynion IDP yn

www.gov.uk/driving-abroad/international-driving-permit

I ddod o hyd i'ch lleoliad PayPoint agosaf sy'n cymryd rhan ac am ragor o wybodaeth, ewch i

www.paypoint.com/dvla

Symud i wlad arall

Os byddwch yn symud i wlad arall, dylech gael gwybodaeth am yrru yno gan yr awdurdod perthnasol yn y wlad honno.

Os byddwch yn **dychwelyd** yma o wlad nad yw yn yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd (UE neu AEE) ac nad oes gennych drwydded Prydain Fawr, gallwch:

- yrru hyd at 12 mis ar drwydded ddilys nad yw'n drwydded Prydain Fawr
- gwneud cais am drwydded arall yn lle'ch trwydded Prydain Fawr flaenorol wrth dalu'r ffi briodol a chyflwyno unrhyw drwydded nad yw'n un Prydain Fawr sydd gennych

Gyrwyr sy'n dysgu a deiliaid trwydded dros dro

Amodau a chyfyngiadau trwydded dros dro (ceir)

Mae'n rhaid goruchwyllo gyrwyr sy'n dysgu. I oruchwyllo gyrrwr sy'n dysgu mae'n rhaid ichi fod yn o leiaf 21 a bod gennych drwydded yrru lawn gyfredol Prydain Fawr (PF), Gogledd Iwerddon, UE neu AEE, y mae'n rhaid ei bod gennych am o leiaf dair blynedd.

Mae'n rhaid bod gan yrwyr sy'n dysgu platiau 'L' ar y cerbyd maent yn ei yrru ac mae'n rhaid bod y platiau'n weladwy'n glir o flaen ac o gefn y cerbyd. Yng Nghymru, gall gyrwyr sy'n dysgu ddefnyddio platiau 'D' ar eu cerbydau yn lle platiau 'L' (mewn rhannau eraill o Brydain mae'n rhaid fod gan bob gyrrwr sy'n dysgu platiau 'L', hyd yn oed os byddant hefyd yn defnyddio platiau 'D').

Os oes gennych hawl dros dro heb gyfyngiad i yrru lori neu fws, ac y cawsoch yr hawl hwnnw ar neu ar ôl 1 Ionawr 1997, **gallwch yrru** ar y draffordd cyhyd ag eich bod yn cael eich goruchwyllo gan Hyfforddwr Gyrru Cymeradwy (ADI) mewn cerbyd rheoli deuol ac yn arddangos platiau 'L'. Os na fyddwch yn bodloni'r amodau hyn gallech gael dirwy o hyd at £1,000, eich gwahardd rhag gyrru neu dderbyn rhwng tri a chwe phwynt cosb ar eich cofnod gyrrwr.

Hawl ar gyfer y rhai sy'n 16 oed

Os ydych yn 16, dangosir hawl categori B dros dro (car) ar eich trwydded ond ni fydd yn ddilys tan eich pen-blwydd yn 17 neu'n 16 oed os ydych yn cael elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu'r Taliad Anabledd Oedolyn (ADP) ar y raddfa uwch, elfen symudedd y Taliad Anabledd Plentyn (CDP) ar y raddfa uwch neu wedi gwneud cais am PIP ar ôl derbyn elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar y raddfa uwch yn flaenorol. Os bydd eich amgylchiadau'n newid tra rydych yn 16 oed ac rydych yn colli'ch budd-dal cymwys neu y caiff ei asesu eto a'i ddyfarnu ar raddfa is, mae gofyn ichi roi gwybod i DVLA, gan efallai y bydd hyn yn effeithio ar eich hawl i yrru.

Gwneud cais am drwydded lawn ar ôl pasio'ch prawf

Os yw'ch enw a'ch cyfeiriad yn gywir ar eich trwydded yrru, mae'n bosibl y byddwch yn gallu derbyn trwydded newydd a gyhoeddir yn awtomatig unwaith ichi basio'ch prawf gyrru. Bydd eich arholwr gyrru'n dweud wrthy'ch a fyddwch yn gymwys ar ei gyfer, os nad felly bydd yn **rhaid** ichi anfon y dystysgrif pasio prawf (DVSA10) atom er mwyn hawlio eich hawliau newydd ar eich trwydded yrru.

Mae'n rhaid ichi ddychwelyd eich trwydded yrru gyfredol. Os na fyddwch yn gallu dychwelyd eich trwydded yrru, cwblhewch naill ai ffurflen gais D1W neu D2W (os oes gennych hawl lori neu fws), a dywedwch pam wrthym yn adran 1.

Hyfforddiant Sylfaenol Gorfodol (CBT)

Trwydded dros dro ar gyfer beiciau modur

Mae'n rhaid i bob beiciwr gwblhau cwrs CBT cyn reidio moped neu feic modur ar y ffordd.

Nid oes angen ichi gwblhau CBT os:

- oes gennych hawl moped llawn o ganlyniad i basio prawf moped ar ôl 1 Rhagfyr 1990
- oes gennych drwydded llawn yn barod ar gyfer un dosbarth o hawl beic modur a'ch bod yn dymuno uwchraddio i un arall. (Er enghraifft, os oes gennych hawl i reidio beiciau modur ysgafn (categori A1), nid oes angen ichi ail-wneud CBT eto i gael hawl categori A dros dro)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am CBT, ffoniwch yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ar 0115 936 6547 a gofynnwch am yr adran CBT.

Deiliaid trwydded yrru car llawn yn reidio moped

Mae'n rhaid i unigolyn sydd wedi pasio prawf gyrru ar gyfer car, ers 1 Chwefror 2001, ddilyn cwrs reidio CBT cyn y gallant reidio moped ar y ffordd.

Nid oes angen i bobl a basiodd prawf gyrru car **cyn 1 Chwefror 2001** ddilyn hyfforddiant cyn reidio moped ar y ffordd, ond rydym yn eu hannog i wneud hynny.

Ar gyfer prawf, mae'n rhaid bod gan foped:

- gapasiti o 50 centimetr ciwbic (cc) neu lai a 4 cilowat (kW) neu lai
- cyfyngiad cyflymder uchaf o ddim mwy na 28 milltir yr awr (mya)

Manyleb beic modur ar gyfer beicwyr sy'n dysgu

Gellir reidio beiciau modur â maint injan hyd at 125cc ac allbwn pŵer hyd at 11kW (14.6hp) ar y ffordd gan reidwyr sy'n dysgu ar yr amod bod ganddynt blatiau L (neu blatiau D neu L yng Nghymru) ar y beic modur.

Hyfforddi i reidio beic modur mwy na 125cc (mynediad uniongyrchol)

Gall dysgwyr dros 19 oed neu'n hŷn ymarfer ar gyfer y prawf ar **feic modur mwy na 125cc**, ond gallant reidio ar y ffordd yn unig **pan fydd hyfforddwr beic modur cymeradwy (ar feic modur arall) gyda nhw.**

Deiliaid trwydded dros dro yn reidio beiciau modur tair olwyn

Daeth rheolau newydd ar gyfer beicwyr beic modur i rym ar 19 Ionawr 2013. Mae hyn yn gymwys ar gyfer deiliaid trwydded dros dro presennol a newydd. Dylai trwyddedau dros dro ddangos categori A (beic modur) a chategori B (car). Ar neu wedi 19 Ionawr 2013 bydd trwydded dros dro yn eich cynnwys yn unig i reidio beiciau modur tair olwyn os oes gennych anabledd corfforol. Bydd profion gyrru ar gyfer cerbydau tair olwyn ar gael yn unig ar gyfer gyrwyr anabl yn gorfforol.

Byddai rhaid i ddeiliaid trwydded dros dro nad ydynt yn anabl sy'n dymuno reidio beiciau tair olwyn basio Hyfforddiant Sylfaenol Gorfodol a phroffion theori ac ymarferol ar feic modur dwy olwyn (A1) neu (A).

Mathau o feiciau modur ar gyfer profion

Beicwyr 17 neu 18 oed

Gall beicwyr 17 neu 18 oed sefyll prawf beic modur ysgafn is-gategori A:

Ar gyfer prawf, mae'n rhaid i feic modur solo is-gategori A1:

- fod rhwng capasiti o 120cc a 125cc
- fod â phŵer injan dim mwy nag 11 cilowat (kW) – marchnerth brêc (bhp) 14.6
- fod yn gallu mynd ar gyflymder o o leiaf 55mya

Beicwyr rhwng 19 a 23 oed

Gall beicwyr rhwng 19 a 23 ddewis sefyll naill ai prawf is-gategori A1 neu brawf is-gategori A2.

Ar gyfer prawf, mae'n rhaid i feic modur solo is-gategori A2:

- fod o leiaf o gapasiti 395cc
- fod â phŵer injan rhwng 25kW (33 bhp) a 35kW (46.6 bhp)
- fod â chymhareb pŵer i bwysau o ddim mwy na 0.2kW y kilogram

Gall beicwyr rhwng 21 a 23 ddewis sefyll prawf beic modur solo heb gyfyngiad categori A os bu ganddynt drwydded A2 am leiafswm o 2 flynedd.

Beicwyr dros 24 a throsodd

Gall beicwyr 24 oed a throsodd ddewis sefyll:

- prawf is-gategori A1
- prawf is-gategori A2
- prawf categori A

Ar gyfer prawf mae'n rhaid fod gan feic modur categori A bŵer o o leiaf 50kW ac isafswm pwysau heb lwyth o 180kg.

Hefyd ar gyfer prawf, mae'n rhaid i feic modur heb gyfyngiad categori A:

- fod o leiaf o gapasiti 595cc
- fod â phŵer injan o o leiaf 50kW (53.6 bhp)

Hyfforddiant i reidio beic modur mawr (mynediad uniongyrchol)

Gall dysgwyr ymarfer ar gyfer y prawf yn unig ar naill ai beic categori A2 (yn 19 neu throsodd) neu A (yn 24* neu throsodd) ar y ffordd (*21 os bu trwydded A2 ganddynt am ddwy flynedd neu fwy) **pan fydd hyfforddwr beic modur cymeradwy gyda nhw (ar feic modur arall).**

Noder: cynigir profion yn unig ar gyfer moped â thair neu bedair olwyn, beiciau modur tair olwyn A1 ac A a chyfuniadau car ochr i'r anabl yn gorfforol.

Bysiau mini, lorïau a bysiau

Gyrru bws mini

I yrru bws mini â dros wyth o seddau i deithwyr, bydd angen hawl arnoch fel arfer o dan gategori D1 neu D. I'w ennill mae'n rhaid ichi fodloni safonau meddygol uwch a sefyll prawf gyrru pellach.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ewch i www.gov.uk/browse/driving neu gallwch archebu taflen 'Gyrru bws mini' (INF28W) gennym drwy ffonio 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

Gyrru lori maint canolig

I yrru lori maint canolig hyd at 7,500kg bydd angen hawl arnoch o dan gategori C1. I'w ennill mae'n rhaid ichi fodloni safonau meddygol uwch a sefyll prawf gyrru pellach.

Gyrru lori neu fws

Mae'n rhaid ichi basio prawf gyrru mewn car cyn ichi sefyll prawf ar gyfer y naill neu'r llall o'r categorïau hyn.

Y categorïau lori y gallwch wneud cais amdanynt yw C1, C1E, C a CE. Y categorïau bws y gallwch wneud cais amdanynt yw D1, D1E, D a DE. Gallwch hefyd wneud cais am bob categori lori a bws. Cewch eich dyfarnu bob categori y mae gennych yr hawl iddo. I wneud hyn mae'n rhaid ichi anfon 'Cais am drwydded lori, bws neu fws mini' (D2W) atom yn ogystal ag 'Adroddiad Archwiliad Meddygol' (D4) a gwblhawyd gan optometrydd neu optegydd a meddyg. Mae'n rhaid ichi hefyd sefyll a phasio prawf gyrru mewn lori neu fws.

Goruchwyllo gyrrwyr sy'n dysgu gyrru lori a bws

Os byddwch yn dymuno goruchwyllo rhywun sy'n dysgu gyrru lori neu fws bydd angen ichi fodloni'r **naill neu'r llall** o'r amodau canlynol:

- mae'n rhaid y bu gennych drwydded lawn ar gyfer y categori o gerbyd rydych yn goruchwyllo ynddo am o leiaf dair blynedd
- mae'n rhaid y bu gennych drwydded lawn ar gyfer y categori o gerbyd rydych yn goruchwyllo ynddo am o leiaf un flwyddyn **ac** y bu gennych drwydded lawn yn y categori arall (lori neu fws fel y bo'n briodol) am o leiaf dair blynedd

Er enghraifft, mae'n rhaid y bu gan unigolyn sy'n goruchwyllo gyrrwr bws sy'n dysgu drwydded bws lawn am o leiaf dair blynedd, neu drwydded lori lawn am dair blynedd a thrwydded bws lawn am o leiaf un flwyddyn.

O 6 Ebrill 2010, mae'n rhaid fod gan y gyrrwr sy'n goruchwyllo yng nghategori cerbydau C1 neu D1 (gan gynnwys cyfuniadau ôl-gerbyd):

- drwydded lawn (wedi 1 Ionawr 1997) ar gyfer yr un categori o gerbyd a yrrir gan y dysgwr
- yr hawl hwnnw am y cyfnod perthnasol o amser – am dair blynedd fel arfer*

* Ystyrir bod gan y rhai hynny sy'n pasio'r prawf gyrru perthnasol cyn 6 Ebrill 2010 yr hawl hwnnw am y cyfnod gofynnol o amser

Gallwch gael mwy o wybodaeth am oruchwyllo gyrrwr lori neu fws sy'n dysgu gan yr Asiantaeth Safonau Gyrrwyr a Cherbydau (DVSA). Ewch i www.gov.uk neu ffoniwch 0115 936 6666.

Tynnu ôl-gerbydau

O 1 Rhagfyr 2021 nid oes rhaid ichi sefyll prawf mewn cerbyd anhyblyg bellach cyn sefyll prawf ôl-gerbyd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hawl i dynnu ôl-gerbydau ewch i www.gov.uk/towing-rules neu darllenwch daflen 'Gofynion trwydded yrru ar gyfer tynnu ôl-gerbydau ym Mhrydain Fawr' (INF30W) y gallwch ei harchebu gennym wrth ffonio 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

Cartrefi modur

Wrth yrru cartref modur yr Uchafswm Màs Awdurdodedig (MAM) sy'n berthnasol i'r hawl gyrru y mae ei angen arnoch. MAM yw cyfanswm pwysau'r cerbyd yn ogystal â'r uchafswm llwyth y gall ei gludo.

I yrru cartref modur â MAM rhwng 3.5 tonnell a 7.5 tonnell, mae angen hawl categori C1 arnoch ar eich trwydded.

I yrru cartref modur â MAM dros 7.5 tonnell, mae angen hawl categori C arnoch ar eich trwydded.

Cerbydau nad oes angen hawl lori neu fws arnynt

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/browse/driving neu darllenwch daflen 'Cerbydau mawr y gallwch eu gyrru gan ddefnyddio eich trwydded car neu lori' (INF52W) y gallwch ei harchebu gennym wrth ffonio 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

Pwyntiau cosb a gwaharddiadau

Gallwch weld neu rannu manylion eich trwydded yrru'n rhad ac am ddim ar-lein yn www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru

Noder: gallwch wirio unrhyw ardystiadau dilys sydd gennych ar eich trwydded yrru ar-lein yn: www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru

Mae pwyntiau cosb a gwaharddiadau'n aros ar eich cofnod gyrru am y cyfnodau canlynol:

I gael gwybodaeth bellach am bwyntiau cosb ewch i www.gov.uk/penalty-points-endorsements

Mae pwyntiau cosb a gwaharddiadau'n ddilys am naill ai tair neu 10 mlynedd gan ddibynnu ar y drosedd, ond maent yn aros ar eich cofnod trwydded yrru am flwyddyn ychwanegol. Os byddwch yn cyflawni trosedd yrru arall a allai fynd i'r llys, mae'r flwyddyn ychwanegol hon yn caniatáu i'r llys ystyried unrhyw bwyntiau cosb a gwaharddiadau blaenorol (a oedd yn ddilys ar adeg y drosedd).

- **11 mlynedd** o ddyddiad yr euogfarn am droseddau sy'n ymwneud â gyrru tra o dan ddylanwad diod neu gyffuriau, achosi marwolaeth oherwydd gyrru diofal tra o dan ddylanwad diod neu gyffuriau, neu achosi marwolaeth trwy yrru diofal a methu rhoi sbesimen i'w brofi
- **Pedair blynedd** o ddyddiad yr euogfarn am yrru di-hid neu beryglus a throseddau sy'n golygu gwaharddiad
- **Pedair blynedd** o ddyddiad y drosedd mewn pob achos arall

Codau pwyntiau cosb

